**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee for the inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?**

**AEC 46**

**Ymateb gan: Sefydliadau cerddoriaeth a'r celfyddydau**
**Response from: Music and Arts organisations**

---

## A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal i addysg a gofal plant?

**28 Medi 2023**

Mae'n bleser gan Anthem Cronfa Gerdd Cymru, Canolfan Gerdd William Mathias, Celfyddydau Anabledd Cymru, Live Music Now, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Tŷ Cerdd a Chynyrchiadau UCAN gyflwyno eu tystiolaeth ar gyfer yr ymgynghoriad ynghylch a yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal i addysg a gofal plant.

**Tystiolaeth ac argymhellion allweddol**

**Gall cerddoriaeth gael effaith drawsnewidiol gadarnhaol** ar blant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol, gan gynnwys **gwella iechyd a lles, sgiliau echddygol, datblygiad lleferydd ac iaith, sgiliau TG a thechnoleg, cyflogadwyedd, hyder a hunan-barch.**

Ar hyn o bryd, mae plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol yn wynebu nifer o rwystrau i brofiadau cerddorol addysgol cynhwysol. **Y rhwystrau allweddol yw diffyg cwricwla a llwybrau dysgu addas, diffyg hyder a chyfleoedd hyfforddi i staff addysgu a diffyg adnoddau a lle yn amserlen yr ysgol i ddarparu addysg cerddoriaeth.**

Gall plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol gael **profiadau cerddorol trawsnewidiol sy'n rhoi boddhad, trwy sefydliadau cerddoriaeth gyfranogol y tu allan i oriau ysgol, cyhyd â bod teuluoedd a gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau fel cludiant, costau cymorth personol ac ati.**

Mae'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a darparwyr y tu allan i'r ysgol, hyfforddiant ar gyfer staff addysgu a hwyluswyr a datblygu llwybrau dysgu, ond **mae buddsoddi yn y maes hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau newid parhaol, sicrhau cydraddoldeb mynediad a datblygu'r cyfleoedd hyn ymhellach.**

## 1. Crynhoi'r achos dros addysg cerddoriaeth

Mae manteision cerddoriaeth i bobl ifanc wedi'u dogfennu a'u deall yn dda. Mae cerddoriaeth yn gwella hwyliau ac yn tawelu'r system nerfol, mae'n ein helpu i reoleiddio emosiwn ac ymdopi â heriau. Mae'n magu hyder a hunan-barch, yn annog hunan-fynegiant, yn datblygu deallusrwydd cymdeithasol ac emosiynol unigolyn ac yn ei helpu i gysylltu ag eraill. Mae hefyd yn hogi sgiliau hunanfyfyrio a dysgu, ac yn ein gwneud yn fwy gwydn.(1) At hynny, mae gan lawer o bobl ifanc niwrowahanol gyswllt arbennig â cherddoriaeth, ac mae gan tua 5-10% o blant awtistig botensial cerddorol eithriadol (traw absoliwt).(2)

**1.1 Datblygu sgiliau trwy gerddoriaeth** Mae llawer o'r gweithgareddau cerddoriaeth a ddatblygwyd gan ymarferwyr yn y maes hefyd yn defnyddio technoleg i hwyluso pobl ifanc i ryngweithio'n gerddorol. Mae Cynyrchiadau UCAN yn cynnal prosiectau cerddoriaeth i bobl ifanc ag amhariad ar eu golwg. Mae eu gwaith wedi dangos sut y gall offer sy'n seiliedig ar dechnoleg felly helpu unigolion i ddatblygu dealltwriaeth a deheurwydd â thechnoleg, a all yn ei dro hogi sgiliau ar gyfer bywyd a chyflogaeth (gweler yr astudiaethau achos isod). Gall cerddoriaeth helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau corfforol eraill, fel sgiliau echddygol manwl, neu ddatblygiad lleferydd ac iaith, yn ogystal â sgiliau cerddorol.

**Astudiaeth Achos: Datblygu sgiliau trwy gerddoriaeth, Cynyrchiadau UCAN**

Cyflwynwyd LH, dyn ifanc ag amhariad ar ei olwg, i ffurfiau hygyrch o dechnoleg cerddoriaeth – Native Instruments Maschine (platfform creu cerddoriaeth sy'n seiliedig ar fotymau a phadiau cyffyrddol). Mae'n dweud ei fod wedi newid y ffordd y mae'n clywed cerddoriaeth ac mae bellach wedi dechrau deall sut mae cerddoriaeth wedi'i strwythuro a'i haenu. Mae wedi ei gyfareddu gan y cymwysiadau technolegol. Drwy hyn, gyda chymorth UCAN, daeth i gyswllt â mathau eraill o dechnoleg recordio sain - meddalwedd 'Reaper' gyda swyddogaeth darllenydd sgrin ychwanegol. Mae bellach yn dysgu recordio a golygu sain a llais ar ei gyfrifiadur ei hun gyda chymorth UCAN. O ganlyniad i hyn, ac wrth ymwneud ag ymarferion recordio ar arddull radio/podlediad, sylwyd bod ei hyder, ei dafluniad lleisiol a hyd yn oed ei osgo wedi gwella'n ddigymell. Mae wedi datblygu awydd rhagweithiol i ddysgu mwy am y sgiliau recordio a chynhyrchu hyn a sut y gall eu defnyddio ei hun, er gwaethaf yr amhariad ar ei olwg. Mae'n dysgu'r sgiliau hyn i gyd fel rhan o Ddyfarniad y Celfyddydau – cymhwyster achrededig a grëwyd gan Goleg y Drindod Llundain.

**1.2 Datblygu cynnyrch diwylliannol amrywiol i Gymru** Cymru yw gwlad y gân, ac mae'n adnabyddus am allbwn cryf o gerddoriaeth o amryw genres. Mae pobl ifanc anabl yn cael eu gadael allan o'r naratif hwn ar hyn o bryd, yn rhannol am fod mynediad at gerddoriaeth mewn lleoliadau addysg yn eithriadol o amrywiol. Mae gennym gyfle i fwydo cynulleidfaoedd sy'n awchu am gynnyrch diwylliannol sy'n croesawu amrywiaeth. Mewn rhannau eraill o'r DU, mae grwpiau o gerddorion amrywiol yn denu cynulleidfaoedd mawr

ac yn gwneud cyfraniadau sylweddol i'r economi ddiwylliannol. Mae yna straeon am lwyddiannau ensembles blaenllaw anabl ym Mhrydain yn ehangach yn cynnwys Paraorchestra, Y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol, Sonic Bothy, BSO Resound, ynghyd ag artistiaid cerddorol poblogaidd fel John Kelly, Dean Rodney Junior and the Cowboys, a llawer, llawer mwy – mae'r rhain yn grwpiau teithio llwyddiannus sydd â chynulleidfaoedd sefydledig sy'n awyddus i weld y gwaith yma. Fodd bynnag, mae diffyg llwybrau yng Nghymru i gerddorion anabl i helpu i harneisio'r potensial hwn a chyrraedd y cynulleidfaoedd hyn. Drwy ddatblygu gweithlu cerddorol amrywiol yng Nghymru a darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt i ffynnu, byddwn yn helpu i greu gwerth creadigol newydd i'n gwlad.

**1.3 Manteision cerddoriaeth i iechyd a lles** Mae tystiolaeth o waith sefydliadau cerddoriaeth sydd â phobl ifanc anabl a niwrowahanol wedi dangos manteision sylweddol i iechyd a lles y cyfranogwyr, a thrwy hynny, i iechyd a lles eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gall harneisio manteision therapiwtig cerddoriaeth helpu i leddfu'r pwysau ar y GIG, y system ofal a gwasanaethau iechyd a lles eraill. Yn ogystal, gwnaeth ymchwil gan Youth Music ac Ipsos Mori yn 2020 ganfod mai cerddoriaeth oedd yr hobi mwyaf poblogaidd ymhlith pobl ifanc(3). Gallai pobl ifanc anabl a niwrowahanol na allant gael mynediad at gerddoriaeth fod yn colli allan ar hobi gydol oes, a'r manteision i iechyd, lles a gwytnwch y gall hyn eu creu.

### Astudiaeth Achos: Rhaglen Ysbrydoli Live Music Now

Lansiwyd Rhaglen Ysbrydoli Live Music Now yn 2016 gyda'r nod o gyfoethogi'r ddarpariaeth gerddoriaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu ysgolion arbennig. Mae'r rhaglen o fudd i ysgolion partner drwy ddarparu profiadau cerddoriaeth fyw ychwanegol i ddisgyblion, cynnig cyfleoedd i staff cymorth ac athrawon dosbarth ddatblygu hyder wrth gefnogi gweithgareddau cerddorol, a galluogi staff cerddoriaeth arbenigol i ddefnyddio adnodd ychwanegol ar ffurf cerddorion proffesiynol yn yr ystafell ddosbarth. Mae hefyd yn sefydlu hyfforddiant a mentora ar gyfer cerddorion Live Music Now i ddod yn arweinwyr cerddoriaeth hyblyg, ymatebol a chynhwysol. Mae'r rhaglen yn defnyddio'r fframwaith Sounds of Intent i hybu dilyniant cerddorol disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd yng nghamau cynharaf datblygiad cerddorol.

**Astudiaeth Achos: Prosiect Canfod y Gân, Canolfan Gerdd William Mathias**

"Mae'r sesiwn un i un y mae ein mab wedi bod yn ei chael gyda'r tiwtor wedi gwneud gwahaniaeth enfawr iddo. I ddechrau, mae'n edrych ymlaen yn fawr at y sesiwn. Mae wrth ei fodd â cherddoriaeth ac mae'r cyfle i ganu a chwarae'r allweddellau gyda cherddor yn wych ac mae'n mwynhau cymaint. Bydd y tiwtor yn arbrofi â gwahanol ddulliau, fel gofyn iddo dynnu lluniau i gyfeiliant cerddoriaeth, ac mae hyn yn ei ymlacio. Tra ei fod yn gwrando ar y tiwtor yn chwarae'r soddgrwth, bydd yn tynnu lluniau, a gallwn glywed ei anadl yn arafu. Ar ôl y sesiwn, mae'n llawer llai pryderus, sy'n beth gwych; mae mor braf ei weld wedi ymlacio ac yn hapus. Fel teulu, rydyn ni'n gwerthfawrogi'r sesiynau hyn yn fawr". Rhiant, prosiect Canfod y Gân

## 2. Beth yw'r rhwystrau i ysgolion a darparwyr gofal plant rhag darparu addysg cerddoriaeth gynhwysol a hygyrch?

### 2.1 Mae mynediad anghyfartal i addysg cerddoriaeth mewn rhai lleoliadau addysgol

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth rheolaidd yn cynnig manteision sylweddol ac amrywiol i bob person ifanc. Mae cerddoriaeth yn effeithio nid yn unig ar ddilyniant sgiliau cerddorol pobl ifanc, ond yn hollbwysig ar eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol. Mae Serotonin ac Ocsitosin yn cael eu rhyddhau trwy gerddoriaeth ac yn helpu i reoleiddio ymatebion ac ymddygiad emosiynol, gan hybu iechyd meddwl plant a'u helpu i ddysgu. Mae cerddoriaeth hefyd o gymorth i ffyrdd ehangach o gyfathrebu ac yn darparu cymuned a lle i berthyn iddo.(4)

Fodd bynnag, er gwaethaf y manteision hyn sydd wedi'u deall yn dda, mae ymchwil gan Live Music Now, Anthem, Celfyddydau Anabledd Cymru a'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth wedi canfod bod cyfleoedd i bobl ifanc a phlant anabl gymryd rhan yn lleihau wrth i oedran ysgol gynyddu; nid oes gan 40% o Ysgolion Arbenigol gwricwlwm cerddoriaeth i'w ddilyn; ac mae staff addysgu sy'n gweithio mewn lleoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn mynegi diffyg hyder a chyfleoedd hyfforddi.(5) Yn ogystal, mae Live Music Now wedi canfod nad yw pobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth uwch, fel unedau arbenigol sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd, yn aml yn cael mynediad i'r addysgu cerddoriaeth sy'n digwydd yn y brif ffrwd. Mae'r cymorth yn aml yn lleol iawn ledled Cymru ac mae llai o gymorth ar gael mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Dylai fod gan bob person ifanc mewn addysg fynediad cyfartal i gerddoriaeth, ond nid dyma'r achos ar hyn o bryd.

### 2.2 Mae angen llwybrau addysgol mewn cerddoriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol

Mewn tridiau o gynhadledd ar-lein yn 2021 i hybu addysg cerddoriaeth yn narpariaeth ysgolion addysg arbennig Cymru, a drefnwyd gan Anthem, Celfyddydau Anabledd Cymru a

Live Music Now, mynegodd arweinwyr cerddoriaeth fod arnynt angen dull gweithredu cynhwysol, creadigol a hyblyg, y gellir ei addasu i anghenion unigol, sy'n camu'n rhydd o gyfyngiadau cwricwlwm cerddoriaeth a rolau rhagddiffiniedig y perfformiwr/cynulleidfa. Byddai hyn yn rhoi'r gallu a'r rheolaeth i greu cerddoriaeth i unigolion er mwyn iddynt fynegi eu hunain. Mae diffyg amser, diffyg cymorth a diffyg dealltwriaeth o'r pwysau y mae athrawon yn ei wynebu oll yn rhwystrau allweddol i wneud i hyn ddigwydd.(6)
Yn ogystal, mae cerddorion anabl yn aml yn cael eu barnu ar feini prawf prif ffrwd / wedi'u dylunio i bobl abl, gan y cwricwlwm a sefydliadau, er enghraifft, wrth fod eisiau unigolion sydd â "thalent neu botensial clir". Mae hyn yn amlygu'r angen am lwybrau addysgol cadarn i bobl ifanc anabl.

Mae rhywfaint o waith yn dechrau digwydd yng Nghymru i ddatblygu llwybrau o'r fath. Un enghraifft yw cydweithrediad rhwng y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol (NOYO), Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, i sefydlu Canolfan NOYO Caerdydd a lleihau'r arfer o allgáu cerddorion ifanc anabl o gerddoriaeth, gan ddatblygu eu sgiliau. a chynyddu cymorth y sector ar eu cyfer. Enghraifft arall yw'r gwaith a wneir yng Ngwynedd a Sir Ddinbych gan Ganolfan Gerdd Wiliam Mathias. (Gweler yr astudiaethau achos isod). Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith fel yma i greu llwybrau dilyniant cydgysylltiedig i gerddorion anabl o'r blynyddoedd cynnar hyd at eu bod yn oedolion ifanc a thu hwnt.

**Argymhelliad:**

- Er mwyn i bob plentyn gael mynediad cyfartal i addysg cerddoriaeth, rhaid i athrawon a darparwyr gael amser, cymorth ac adnoddau i archwilio a datblygu llwybrau addysgol priodol.

### 2.3 Mae angen hyfforddiant addas i athrawon a hwyluswyr

Mewn astudiaeth yn 2023 gan Dr Beth Pickard ym Mhrifysgol De Cymru (7), a gomisiynwyd gan y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth, amlygwyd y diffyg hyfforddiant sylweddol i ymarferwyr sy'n gweithio ym maes addysg plant a phobl ifanc ag anableddau, er yr ymarfer cyfoethog sydd yn y maes hwn. Nododd fod angen dybryd i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder yr holl athrawon ac ymarferwyr mewn addysg cerddoriaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau. Roedd hyn argymell y gallai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth chwarae rhan allweddol wrth arwain camau i ddatblygu hyfforddiant addas, a bod yn eiriolwr mewn ysgolion dros bwysigrwydd cerddoriaeth ar gyfer addysg a lles. Mae angen hyfforddiant ac adnoddau i addysgwyr cerddoriaeth (tiwtoriaid / athrawon dosbarth arbenigol ac ati) yn ogystal â hyfforddiant ar wahân i staff dosbarth nad ydynt yn arbenigo mewn cerddoriaeth sy'n debygol o fod yn cynorthwyo ac y bydd disgwyl iddynt, mwy na thebyg, hyd yn oed ddarparu addysg cerddoriaeth. Bydd hyfforddi athrawon i ddarparu addysg cerddoriaeth dan arweiniad yr unigolyn (yn hytrach na therapi cerddoriaeth) yn arwain at fwy o gyflogadwyedd i gerddorion ifanc anabl, yn ogystal â gwella gwytnwch a datblygu sgiliau. Mae yna hefyd ddiffyg cerddorion anabl sy'n

gweithio ym maes addysg cerddoriaeth, a bydd angen i lwybrau hyfforddi ganolbwyntio hefyd ar adeiladu gweithlu o ymarferwyr anabl ac addysgeg dan arweiniad pobl anabl.

***Argymhellion:***

- Datblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder yr holl athrawon ac ymarferwyr ym maes addysg cerddoriaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau trwy hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu a'i ddarparu gyda chymorth cerddorion anabl, sefydliadau dan arweiniad pobl anabl a sefydliadau sy'n modelu arferion cerddoriaeth gynhwysol ac yn darparu hyfforddiant cerddoriaeth gynhwysol o ansawdd uchel.
- Dylai unrhyw ddarpariaeth hyfforddiant fod yn seiliedig ar gryfderau ac yn ceisio meithrin newid diwylliant i werthfawrogi profiadau pobl ifanc anabl o gerddoriaeth trwy ddeall modelau cymdeithasol a rhyngweithiol o anabledd.

### Astudiaeth achos: Datblygu Llwybrau i Gerddorion Ifanc Anabl, Canolfan Gerdd William Mathias

Mae Canolfan Gerdd William Mathias yng Nghaernarfon yn darparu hyfforddiant, perfformio a chyfleoedd creadigol cerddorol o'r safon uchaf yng Ngogledd Cymru. Maent yn ymdrechu i leihau rhwystrau i ymgysylltu, ehangu gorwelion a meithrin cyflawniad mewn cerddoriaeth. Ers 20 mlynedd mae'r Ganolfan wedi gweithio mewn partneriaeth â thîm Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd i ddatblygu cyfleoedd a llwybrau cerddoriaeth i bobl 18+ oed sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Yn 2018 fe wnaethon nhw sicrhau cyllid i ddatblygu eu darpariaeth Canfod y Gân (www.canfodygan.cymru). Ehangwyd y gwaith hwn yn ddiweddar i gynnwys prosiect Canfod y Gân Iau, sy'n cael ei ariannu gan Anthem. Nod y prosiect hwn yw datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth gerddorol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yng Ngwynedd a Sir Ddinbych trwy gynnal sesiynau a gweithdai cerddoriaeth y tu allan i oriau ysgol, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau amrywiol yng Ngogledd Cymru. Mae prosiect Canfod y Gân wedi galluogi'r Ganolfan i ehangu ei thîm o diwtoriaid sy'n hyderus wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol.

"Mae'r prosiect wedi golygu bod gan ein merch rywbeth yn gyffredin â'i brodyr a chwiorydd ac mae hi mor falch o sôn wrthym ni am Ganfod y Gân. Mae'r perfformiadau wedi rhoi rhywbeth i bawb anelu ato ac i ddathlu eu cyflawniad." (Rhiant cyfranogwr Canfod y Gân)

**Astudiaeth achos: Datblygu gyrfa ar gyfer cerddorion proffesiynol ifanc uchelgeisiol: Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a'r Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol**

Nod y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol (NOYO) yw creu cyfleoedd i gerddorion ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl. Mae'n gweithio gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a CBCDC i sefydlu Canolfan NOYO yng Nghaerdydd. Yn aml nid yw pobl ifanc anabl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd cerddorol sydd ar gael i'w cyfoedion nad ydynt yn anabl ac mae'r 'ecoleg' gerddorfaol ehangach yn aml yn anghefnogol a/neu'n anhygyrch i bobl ifanc anabl. Bydd y prosiect yn datblygu eu sgiliau chwarae gyda phobl ifanc eraill fel rhan o gerddorfa amrywiol a deinamig a'u helpu i symud ymlaen yn bersonol. Bydd y cyfranogwyr yn derbyn gwersi un-i-un, ymarferion ensemble a mentoriaeth NOYO a llwybrau diwydiant i leoliadau proffesiynol gyda sefydliadau ac ysgolion partner.

### 2.4 Yn aml nid yw'r adnoddau presennol ar gyfer addysgu cerddoriaeth i blant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol yn ddwyieithog

Mae offer effeithiol ar gael i athrawon a hwyluswyr addysg cerddoriaeth ar gyfer pobl ifanc anabl a niwrowahanol, ond yn Saesneg yn unig y maen nhw ar gael ar hyn o bryd. Un enghraifft o hyn yw'r fframwaith Sounds of Intent https://www.soundsofintent.app/ sy'n fodel o ddatblygiad cerddorol sy'n cyflwyno sut rydym oll yn ymwneud â cherddoriaeth. Mae'n fframwaith sydd wedi'i gynllunio i helpu athrawon, ymarferwyr a gofalwyr i ddeall sut mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn ymwneud â cherddoriaeth mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n helpu i ddeall sut beth yw ymgysylltiad cerddorol a sut i'w hybu yn unol â galluoedd, diddordebau, hoffterau ac anghenion cerddorol amrywiol pobl. Wedi'i ddatblygu trwy ddegawd o ymchwil yn y blynyddoedd cynnar, mae wedi arwain at ddatblygu offer cwricwlwm ystyrlon fel *Count Me In*, sef cyfres o ffeiliau cerddoriaeth a sain i wneud cerddoriaeth yn gynhwysol ymhlith plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.(8)

### 2.5 Mae angen mwy o bartneriaethau a rhwydweithio rhwng addysg brif ffrwd a darparwyr arbenigol y tu allan i'r ysgol

Mae Anthem Cronfa Gerdd Cymru yn rhedeg cronfa Atsain, sy'n rhoi grantiau i alluogi prosiectau i chwalu rhwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc, ac mae plant a phobl ifanc anabl yn un o'i blaenoriaethau. Mae'r prosiectau sy'n cael eu hariannu yn canolbwyntio ar ddatblygu llwybrau, gan archwilio offerynnau a thechnegau addysgu newydd yn ogystal â goresgyn rhwystrau mynediad ymarferol fel costau teithio ataliol, costau cymorth personol, a chymorth ychwanegol i rieni a gofalwyr, sy'n wynebu straen ariannol ac emosiynol sylweddol yn eu bywyd bob dydd, gan olygu ei fod yn anodd iddynt gael mynediad at ddarpariaeth cerddoriaeth y tu allan i addysg brif ffrwd. Mae'r gronfa yn canolbwyntio'n benodol ar weithio mewn partneriaeth, gyda sefydliadau cerddoriaeth, ieuenctid, llesiant a

rhai wedi'u harwain gan anabledd, gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau allweddol eraill. Mae Anthem hefyd yn rhedeg rhwydwaith Atsain o dros 50 o aelodau, sy'n galluogi'r sefydliadau hyn i gwrdd a rhannu arferion gorau, heriau, cyfleoedd ac atebion.

Mae gwerthusiadau o'n prosiectau yn dangos bod plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol yn cael profiadau cerddorol trawsnewidiol sy'n rhoi boddhad o ganlyniad i brosiectau partneriaeth rhwng addysg brif ffrwd a sefydliadau cerddoriaeth gyfranogol y tu allan i oriau ysgol. Gall y profiadau hyn gael effaith sylweddol ar les pobl ifanc, datblygiad eu sgiliau a hyd yn oed eu llwybrau gyrfa posibl.

**Argymhellion:**

- Rydym yn croesawu'r ffocws ar bartneriaeth yn y Cynllun Cenedlaethol newydd ar gyfer Addysg Cerddoriaeth ond bydd buddsoddi'n barhaus yn y maes hwn yn allweddol er mwyn sicrhau newid parhaol.
- Dylai rhwydwaith Atsain barhau i dyfu a ffynnu, gan alluogi cyfleoedd i rannu arferion gorau a chydweithio i ffynnu, a hynny rhwng pob sefydliad sy'n chwalu rhwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc.
- Rydym yn croesawu rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru; mae ei ffrwd ariannu Cydweithio Creadigol yn annog partneriaethau rhwng ysgolion a sefydliadau celfyddydol, a hoffem weld ei chenhadaeth yn cynnwys dod â mwy o artistiaid anabl i mewn i ysgolion ar sail cyfle cyfartal a phwysigrwydd modelau rôl.

**Pwy ydym ni**

Gweledigaeth **Cronfa Gerdd Anthem Cymru** yw Cymru lle gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc. Cawsom ein sefydlu yn 2018 yn dilyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru a oedd yn archwilio ffyrdd i gynorthwyo sut mae pobl ifanc yn creu a dysgu cerddoriaeth yng Nghymru. Rydym yn ariannu sefydliadau cerddoriaeth ieuenctid sy'n gweithio i chwalu rhwystrau trwy gerddoriaeth, rydym yn cynnal eiriolaeth ac ymchwil, ac rydym yn darparu porth ar-lein o adnoddau a chymorth i bobl ifanc sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth. Mae ein Fforwm Ieuenctid yn dod â phobl ifanc greadigol 17-24 oed ynghyd, pobl sy'n ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd i greu cyfleoedd, meithrin talent, a galluogi mynediad at gerddoriaeth i holl bobl ifanc Cymru.

**Canolfan Gerdd William Mathias** : Mae taith gerddorol pob person yn wahanol a nod CGWM yw helpu pob person i adnabod, cyflawni a rhagori ar eu nodau personol boed hynny trwy ennill lle mewn conservatoire cerddoriaeth neu gael y cyfle i glywed cerddoriaeth fyw. Cyflawnir hyn drwy amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys gwersi cerdd un-i-un yn ein Canolfannau yng Nghaernarfon a Sir Ddinbych, ensembles, dosbarthiadau cerddoriaeth i fabanod, cyngherddau, dosbarthiadau meistr, sesiynau cerddoriaeth gymunedol a Gwyliau Telyn a Phiano Rhyngwladol Cymru. Cyflwynir

gweithgareddau CGWM gan dîm o 45 o diwtoriaid cerdd llawrydd ac mae dros 85% ohonynt yn gallu cyflwyno gweithgareddau'n ddwyieithog

**Celfyddydau Anabledd Cymru** yw'r prif sefydliad ar gyfer celfyddydau anabledd yng Nghymru. Mae'n gweithredu fel sefydliad aelodaeth gyda bron i 400 o artistiaid ledled Cymru. Ei nod allweddol yw cefnogi artistiaid a phobl greadigol anabl a Byddar i ffynnu yn y diwydiannau creadigol. Mae hefyd yn annog sefydliadau celfyddydol i ymuno â ni i helpu i weithio tuag at sector celfyddydau mwy myfyriol a chynhwysol.
Yng Nghelfyddydau Anabledd Cymru, caiff celf ei defnyddio i addysgu a chael gwared ar y rhwystrau sy'n cyfyngu ar bobl anabl, eu dewisiadau bywyd, a'u hawl i fyw'n annibynnol ac yn gyfartal yn y gymdeithas. Nod ein holl waith a'n gweithgareddau yw bod yn hygyrch a dirwystr. Rydym yn croesawu amrywiaeth ac yn falch o hybu a dathlu iaith a diwylliant Cymru yn y cyd-destun hwn.

Mae **Live Music Now** yn elusen sy'n gweithio ac yn ymgyrchu i greu effaith gymdeithasol gynhwysol a mesuradwy trwy bŵer cerddoriaeth. Mae ein cerddorion proffesiynol yn gweithio gyda phobl hŷn (lawer ohonynt yn byw gyda dementia), plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sy'n anablu, teuluoedd sy'n byw drwy heriau; a gofalwyr a gweithwyr allweddol. Drwy gysylltu pobl drwy gerddoriaeth a gwerthuso'r effaith, rydym yn hybu ymarfer cerddorol ac yn newid sut rydym yn deall ac yn cynorthwyo pobl sydd wedi'u tangynrychioli a phobl agored i niwed yn ein cymdeithas. Ceir tystiolaeth bod ein gwaith yn gwella iechyd a lles ac yn meithrin sgiliau, hyder ac ymgysylltiad. www.livemusicnow.org.uk

**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru** yw Conservatoire Cenedlaethol Cymru. Mae'n sefydliad arbenigol sy'n gweithredu o fewn grŵp cymheiriaid cenedlaethol a rhyngwladol o conservatoires, a dyma'r unig ddarparwr hyfforddiant conservatoire arbenigol yng Nghymru. Wedi'i leoli yng Nghaerdydd, mae artistiaid ifanc o Gymru yn hyfforddi yn CBCDC ochr yn ochr â'u cymheiriaid yn y DU a grŵp cymheiriaid rhyngwladol o dros 30 o wledydd. Mae cyfleusterau CBCDC cystal â'r goreuon yn y byd.

Nod **Tŷ Cerdd** yw hyrwyddo a dathlu cerddoriaeth a cherddorion Cymru. Rydym yn darparu cymorth uniongyrchol i gyfansoddwyr, ac yn cydweithio â sefydliadau cerddoriaeth proffesiynol Cymru, gan fanteisio'n llawn ar ein stiwdio recordio, label recordio, argraffnod cyhoeddi, llyfrgell fenthyca ac archif mewnol. Rydym yn gweithio gyda rhwydwaith cynyddol o gerddorion a grwpiau perfformio ledled Cymru, gan gynnig arbenigedd artistig a chymorth hyrwyddo iddynt, a'u helpu i gysylltu â chyfansoddwyr a chynulleidfaoedd. Rydym yn ariannu amrywiaeth o waith mewn cymunedau ledled Cymru drwy gronfeydd y Loteri a ddosbarthwn ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae **Cynyrchiadau UCAN** yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag amhariad ar eu golwg drwy gynnig mynediad i gyfleoedd sy'n cynyddu hyder, a datblygu sgiliau a galluoedd, ac sy'n eu helpu i gyflawni eu potensial. Mae eu gwaith ym maes cerddoriaeth gyfranogol sy'n

cael ei ariannu gan Anthem yn datblygu canllawiau ar arferion gorau a thechnegau i'w rhannu â phartneriaid a rhwydweithiau, gan archwilio tir newydd ym maes hygyrchedd technoleg cerddoriaeth, a darparu dyfarniadau achrededig y celfyddydau i gyfranogwyr.

**Cyfeiriadau**


*(1)* Holford, Anita. *Eight ways that music can support young people's wellbeing and learning, 2021.* Ar-lein: www.westsussexmusic.co.uk
(2) Ockelford, Adam, *Music, Language and Autism* (2013). Jessica Kingsley Publications
(3) Youth Music ac Ipsos MORI, *The Sound of the Next Generation,* 2020 https://youthmusic.org.uk/sound-of-the-next-generation
(4) Grant, Dr Carrie. *We Are All Musical*. 2021 Conference on Music for Children & Young Disabled People with Additional Learning Needs.
(5) Welch, Graham, Athro, Institute of Education, UCL, Consultation on the provision of music in Special Schools in Wales, Haf 2021.
(6) Summary findings, *We Are All Musical*. 2021 Conference on Music for Children & Young Disabled People with Additional Learning Needs.
(7) Pickard, Dr Beth. *A Scoping Study of Training Opportunities in Wales for Practitioners working with Young People with Additional Learning Needs or Disabilities.* 2023
(8) *Count Me In,* Sounds of Intent https://soundsofintent.app/count-me-in/


**Cyfeiriadau pellach**


Arts & Disability: *Young Disabled/Deaf People Outcomes Report* (Celfyddydau Anabledd Cymru, Tachwedd 2020)

Reshape Music : *A report exploring the lived experience of Disabled musicians in education and beyond* (Youth Music, Hydref 2020)

The Power of Music: *a research synthesis of the impact of actively making music on the intellectual, social and personal development of children and young people (*Susan Hallam, 2015)